

Ein Gwlad

Darlleniad 1: Rhufeiniaid 9: 3-10

Darlleniad 2: Rhufeiniaid 4

Yr ydym yn falch iawn, Arglwydd, o'th gydnabod a'th addoli fel creawdwr yr holl fydysawd. Ti yw ein creawdwr ni, ac ynot ti yr ydym ni'n byw, yn symud ac yn bod; dy hiliogaeth di ydym.

Yr ydym hefyd yn cydnabod dy ddoethineb a'th ras yn gwahanu dynoliaeth i genhedloedd trwy gymysgu eu hieithoedd, a'u gwahanu oddi wrth ei gilydd. Diolchwn i ti am ddyfesio ffordd i'n gwaredu rhag pechod Babel, sef uno i gystadlu â Duw.

Rhyfeddwn a dotiwn at yr amrywiaeth gyfoethog a ddaeth allan o hyn. Diolch am ieithoedd a thafodieithoedd gwahanol, am amrywiol ddiwylliannau a lliwiau croen. Diolch nad yw pawb yn unffurf, unwedd, ac nad yw'n byd yn un undonog.

Er gwaethaf gwrthryfel dynoliaeth yn dy erbyn ers dyddiau Adda ac Efa, diolchwn hefyd dy fod wedi caru'n byd cyfan gymaint, nes iti roi dy unig Fab yn Waredwr er mwyn i bob un ac unrhyw un sy'n credu ynddo gael bywyd tragwyddol yn hytrach na distryw a cholled. Diolchwn bod ein Harglwydd Iesu wedi marw ar y Groes dros ei bobl o bob llwyth a gwlad ac iaith.

Gorfoleddwn yn y ffaith ei fod yn fwriad gennyt erioed i gynnwys pob math o bobl yn dy deyrnas dragwyddol. Bendigwn dy enw am fod dy Efengyl yn creu teulu byd-eang newydd yng Nghrist, o holl gyfandiroedd y byd, gan ein cynnwys ni hefyd.

Diolchwn am iti awgrymu hyn wrth Abraham mewn cyfamod, trwy ddweud y byddai holl genhedloedd y ddaear yn cael eu bendithio trwy ei had, sef Crist. Diolch am ddangos y mynnet drugarhau wrth bobl Ninefe yn amser Jona. Diolch am eiriau dy Fab yn dangos y byddai'r newyddion da ynddo fe yn cael ei

gyhoeddi trwy'r byd i gyd cyn ei ail-ddyfodiad.

Diolch felly, fod lle i Gymru yn dy gynlluniau a'th fwriadau grasol di. Diolchwn yn ostyngedig ein bod wedi cael yr Efengyl yn ein gwlad ers canrifoedd maith, a'i bod yn dal yn ein tir heddiw. Diolch bod Efengyl Crist wedi bod yn rhan annatod o ddwylliant Cymru ers amser cynnar ar ôl Crist. Diolch, Arglwydd, am y bendithion cyfoethog a ddaeth i'n gwlad trwy gyfrwng dy efengyl sanctaidd. Diolchwn hefyd fod Cymru wedi bod yn gyfrwng helaeth iawn i fendithio rhannau eraill o'r byd trwy ledaenu'r efengyl.

Gwared ni rhag unrhyw beth sydd yn gwrthryfela yn dy erbyn di ym mywyd ein gwlad heddiw. Cydnabyddwn fod elfennau cryf o annuwioldeb yn ein nodweddu bellach. Sylweddolwn fod anghrediniaeth yn broblem oddi allan ac oddi mewn i'n heglwysi. Nertha dy blant i frwydro yn erbyn heresi a diffyg parch at dy air sanctaidd lle'i ceir. Gwared ni hefyd rhag balchder cenedlaethol di-Dduw a diddiolch. Gwared ni rhag bod yn amharod i ddysgu oddi wrth genhedloedd eraill.

Yn dy drugaredd, Arglwydd, rho inni ras i'th orseddu yn frenin Cymru. Gad inni gofio bod cyfiawnder yn dyrchafu cenedl. Erfyniwn arnat i'n cadw a'n gwarchod rhag colli'r breintiau a gawsom mor helaeth gennyt. Rho i ni edifeirwch lle bo angen hynny. Rho i'th blant ac i arweinwyr dy bobl faich Nehemeia dros eu gwlad.

Derbyn ein diolch a'n herfyniadau taer, yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. Amen.

John Treharne